

Cytundeb Gwasanaeth â Sector Gwirfoddol Ynys Môn

Ymrwymadau Cyngor Sir Ynys Môn

1. Bydd yr holl ymarferion ymgynghori perthnasol ar ddyfodol gwasanaethau a newidiadau sylweddol yn y gwasanaethau yn cynnwys sefydliadau lleol neu sefydliadau gwirfoddol perthnasol.
2. Cynnal y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn unol â'r Cylch Gorchwyl.
3. Sicrhau gweithdrefnau adrodd y Bwrdd Ymgysylltu/Ymgynghori (Cynllunio Lle) a'r adroddiad Grŵp 3^{ydd} Sector i Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.
4. Bydd y sector gwirfoddol yn cael ei hysbysu am yr holl gynigion o grantiau a wneir i'r Cyngor neu bartneriaid cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac eraill. Yn fwy na hynny, bydd y Cyngor yn darparu'r sector â chyfleoedd i ymgeisio am gyllid o fewn y grantiau hynny lle mae hynny'n cael ei ganiatáu.
5. Bydd yr holl sefydliadau sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau, yn cael eu gwneud yn ymwybodol o dendrau gwasanaeth drwy'r wybodaeth a ddarperir drwy Rwydwaith y Trydydd Sector.
6. Bydd unrhyw wybodaeth berthnasol ar gyfer grwpiau a sefydliadau cymunedol yn cael ei rhannu â'r sector gwirfoddol drwy Rwydwaith y Trydydd Sector.

Ymrwymadau Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVC) (Medrwn Môn)

1. Bydd Medrwn Môn yn gweithredu fel dolen gyswllt i'r sector gwirfoddol yn Ynys Môn. Pan fydd y Cyngor yn cyfeirio gwybodaeth at Medrwn Môn, fe gymerir y bydd y sefydliad yn pasio'r holl wybodaeth berthnasol ymlaen at unrhyw bartneriaid sector gwirfoddol perthnasol neu'r holl bartneriaid sector gwirfoddol.
2. Lle bydd cyfleoedd tendr neu grant ar gyfer sefydliadau sector gwirfoddol bydd Medrwn Môn yn rhannu'r wybodaeth honno â'r holl sefydliadau ond bydd hefyd yn ystyried targedu ac annog sefydliadau perthnasol i ymateb i'r cyfleoedd hyn.
3. Bydd Medrwn Môn yn darparu cyngor arbenigol neu'n cyfeirio sefydliadau at gyngor arbenigol er mwyn iddynt allu ymateb i gyfleoedd grant o'r fath.
4. Bydd Medrwn Môn yn sicrhau cyfathrebu rheolaidd ac wedi'i gynllunio gyda'r sector mewn perthynas â gwybodaeth genedlaethol neu leol.

5. Pecyn gwirfoddoli – gweithio gyda chyflogwyr ar yr Ynys i gynnig gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli ar ôl ymddeol – Wedi’i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

Ymrwymïadau Sector Gwirfoddol

1. Bydd sefydliadu Sector Gwirfoddol yn annog dinasyddion o fewn ardaloedd lleol i wirfoddoli o fewn eu hardaloedd lleol neu o fewn ardaloedd arbenigol er mwyn cefnogi’r boblogaeth ehangach.
2. Bydd sefydliadau sector gwirfoddol yn edrych i ddarparu cymorth i unigolion, yn cyd-fynd â’r rheini a gynigir drwy bartneriaid statudol ac yn adlewyrchu eu rolau unigryw o fewn cymunedau.
3. Bydd sefydliadau sector gwirfoddol yn aneli at gefnogi eu cymunedau o fewn cyd-destun 7 diwrnod a thu allan i oriau swyddfa arferol – Cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.